45. Odynau Calch Aberstrincell

Llansantffraed, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 213 yr A.O. Aberystwyth a Chwm Rheidol; Prif fynedfa: SN519684; Canolfan y safle: SN519683
Statws	Mae'r 4 odyn yn Gofadeiladau Hynafol Rhestredig.
Daliadaeth	Ar brydles gan berchennog preifat am 25 mlynedd o 1994 ymlaen.
Maint	0.63 he (1.6 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	2 km i'r de o Lanrhystud, 1 km i'r gogledd o Lansanffraid. Gofod parcio ar y lôn. Llwybr troed cyhoeddus (llwybr troed arfordirol yn rhedeg drwy'r safle). Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle. Mae'r odynau calch yn ansefydlog a gallant fod yn beryglus iawn.
Cludiant cyhoeddus	Bws rhif X40 o Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan i Gaerfyrddin, X50 i ac o Aberystwyth / Aberaeron / Aberteifi a 550 i ac o Aberystwyth / Aberaeron ar briffordd yr A487 naill ai yn Llanrhystud neu Lanon. Mae yr un pellter i'r safle yn fras a gellir ei gyrraedd drwy ddefnyddio'r llwybr arfordirol.

Disgrifiad: Planhigion yr arfordir, drain duon. Odynau calch diffaith ar yr arfordir, mae pedwar ohonynt ar ôl i'w gweld ar y safle.
Mae Odynau Calch Aberstrincell yn rhan o ddyddodion rhewlif darniog o glogfaen. Ceir wyneb meddal ar graig clogwyn y môr ac mae'n erydu. Mae'r safle 1.6 erw'n bwysig yn hanesyddol, gyda gweddillion nodedig 4 odyn galch segur. Mae'n bur debyg mai'r diwydiant hwn sy'n gyfrifol am ddatblygiad planhigion mwy calchaidd mewn ardal lle mae'r priddoedd yn asidig yn bennaf.

Ni fu llawer o ymyrraeth â'r safle ac er nad yw'n 'brin' ynddo'i hun, mae'r planhigion yn anarferol i Geredigion. Mae'r eirlysiau naturiol yn nodwedd arbennig, ac yn cynnwys *Galanthus nivalis* a'r hybrid *G. nivalis x plicatus*, sy'n anghyffredin yn y sir hon. Mae'r tyweirch sych ar ben yr odynau'n parhau'n eithaf cyfoethog a cheir llu o Friwydd Melyn a Thag yr Aradr yma. Gwarchodir y safle ar yr ochr sy'n wynebu tua'r môr gan ddrain duon trwchus, sy'n hafan i lwynogod, cwningod ac adar y gwrychoedd.

Ceir golygfeydd gwych ar draws yr arfordir, sy'n gartref i amrywiaeth eang o adar rhydio, yn cynnwys y Pibydd Coesgoch, y Gylfinir, Cwtiad y Traeth, y Cwtiad Torgoch, y Cwtiad Llwyd a Phioden y Môr. Gellir gweld Hebogiaid Tramor yn hela uwchben y warchodfa. Mae'r rhywogaeth prin o bryf lludw, *Porcellio dilatatus*, yn byw yma (ac wedi'i gyflwyno i'r safle ers amser maith mae'n bur debyg, wrth fewnforio calchfaen). Mae hwn yn un o blith tri safle yn unig ble ceir hyd i'r pryf yma yng Ngheredigion.

aberstrincell limekilns2 1 7/7/06, 3:47 pm



Nodau Rheoli: Rheolir yr odynau er mwyn gwarchod eu diddordeb archeolegol a'u diogelwch. Mae'r Drain Duon yn cael eu clirio yma ac acw i warchod y glaswelltir sydd o ddiddordeb arbennig.

Amser da i ymweld	
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu a glöynnod byw
Mehefin - Hydref	Planhigion yn blodeuo
Drwy gydol y flwyddyn	Adar yr arfordir a gwylio'r môr

aberstrincell limekilns2 2 7/7/06, 3:47 pm